# CYNGOR CYMUNED BUAN

**Cofnodion cyfarfod y Cyngor dyddiedig 13 Mai 2021 gafodd ei gynnal drwy gyfrwng sustem ZOOM**

**Presennol:**

**Cynghorwyr**:
Hughie Williams – Cadeirydd
Wyn Davies
Tesni Wyn Jones
Nia Jones
Dafydd Ll Williams
Anwen Davies – Cynghorydd Sirol
Rhian Holt - clerc

1. **Ymddiheuriadau** – y Cynghorwyr Einir Lewis, Catherine Hughes, Phil Roberts a Rhys Jones

**2. Cofnodion y cyfarfod diwethaf**

Cadarnhawyd cofnodion 8 Ebrill 2021 yn gywir gan y Cynghorydd Tesni Wyn Jones ac eilwyd gan y Cynghorydd Nia Jones.

**3. Ymatebion i ohebiaeth**

Derbyniwyd ymateb gan yr Adran Drafnidiaeth o Gyngor Gwynedd fel a ganlyn:

1. **Pant Glas, Rhydyclafdy** - Mae gwaith glanhau'r draen wedi ei chynnwys ar restr waith y lori glanhau traeniau. Mae’r gwaith o agor ffos hefyd wedi ei nodi fel ei gynnwys ar y rhaglen pan fydd adnoddau a blaenoriaethau yn caniatáu.

2. **Meithrinfa Blagur -** Rwyf wedi pasio’r mater yma ymlaen i’r Gwasanaeth Trafnidiaeth. Fe allwch olrhain y mater a holi ymhellach drwy gysylltu gyda’r blwch e-bost canlynol: Trafnidiaeth/Traffic MA1348@gwynedd.llyw.cymru

3. **Ffordd o Glanrhyd i Bont Sarn Glorian -** Mae’r gerbydlon ei hun mewn cyflwr da ond mae yna sathru'r ymylon glas gan foduron, peiriannau trwm yn debyg, yn gyrru dros yr ymyl. Fe edrychwn be ellir ei wneud ond gyda'r rhwydwaith gwledig yn gul mae’n anodd dod i ben gyda difrod diofal fel hyn yn ystod, ac wedi cyfnodau estynedig wlyb. Mae angen paratoi draen newydd ger adeiladwaith y bont ei hun. Fe drefnir dyluniad i’w cynnwys ar y rhaglen fel ei ymgymryd yn ei dro fel y bydd adnoddau yn caniatáu.

4. **Nanhoron – Nant y Pwdin** - Mae’r Tîm Strwythurau YGC yn ymwybodol o’r angen i atgyweirio waliau cynnal mewn tri llecyn. Mae yna arwyddion rhybuddio trafnidiaeth wedi ei gosod ar y safle dros dro.

5. **Llifogydd A499 Penrhos** - Mae'r ffyrdd osgoi swyddogol yn cael ei arwyddo hyd y ffyrdd dosbarth 1 a 2 pan fo rhaid cau'r A499 mewn achlysuron llifogydd drwg. Mae'n adnodd rheoli camddefnydd o'r ffyrdd llai ar yr adegau hyn. Does gan y Cyngor na'r Heddlu adnoddau digonol i oruchwylio a rheoli trafnidiaeth yn ystod y cyfnodau cau yn anffodus. Gan werthfawrogi eich sylwadau nid oes modd syml ac ymarferol i arwain trafnidiaeth, yn anochel ni fydd pob gyrrwr modur yn dilyn y cyfarwyddiadau.

**4. <u>Materion Ariannol</u>**

Derbyniwyd cysoniad y banc am y cyfnod 4 Ebrill 2021 i 3 Mai 2021 yn gywir yn y swm o £4691.51.

Bydd y sieciau isod yn cael eu harwyddo gan ddau Gynghorydd yn ystod y dyddiau nesaf.

| | | |
|---|---|---|
| Rhian Holt | £111.79 | Siec rhif 200619 |
| Cyllid a Thollau ein Mawrhydi | £28.00 | Siec rhif 200620 |
| Tŷ Gobaith | £250.00 | Siec rhif 200621 |
| Cymorth Cancer Macmillan | £250.00 | Siec rhif 200622 |
| Ysgol Botwnnog | £350.00 | Siec rhif 200623 |

Gwelwyd bod y **praesept** wedi ei dderbyn yn y swm o £1875.00.

**Ffurflen Flynyddol a'r Fantolen Ariannol 2020/2021**
'Roedd yr holl gynghorwyr wedi derbyn copi o'r uchod drwy ebost er mwyn eu harchwilio. Derbyniwyd y cwbl yn gywir yn y cyfarfod heno. Bydd y clarc yn mynd ati i yrru dogfennau i gael eu harchwilio gan Adran Cyllid Cyngor Gwynedd yn y dyfodol agos.

**Ysgol Botwnnog**
Rhoddwyd siec o £350 i Ysgol Botwnnog ddiwedd Rhagfyr 2020 ac ar ôl cwblhau y fantolen 2020/2021 gwelwyd nad oedd y siec wedi ei chyflwyno i'r banc.

Cafwyd trafodaeth a penderfynwyd y bydd y clarc yn cysylltu gyda'r ysgol i weld beth yw y sefyllfa ac yna canslo y siec gyntaf yn y banc a chyflwyno siec newydd i'r ysgol. Penderfynwyd derbyn hyn.

**5. Materion Cynllunio**
Cafwyd un cais cynllunio:
Rhif Cais / Application No.: C21/0456/33/DT
Lleoliad / Location: Mochras Isaf, Ceidio, Pwllheli, Gwynedd, LL53 8UF
Bwriad / Proposal: Estyniad deulawr
DIM GWRTHWYNEBIAD

Nid oes gwrthwynebiad i'r cais ond datganodd un neu ddau gynghorwr nad oedd y cyfeiriad, Mochras Isaf, yn gywir ar y llythyr a'r ebost. Mae y ffurflen gais a'r cynlluniau yn cyfeirio at Mochras Uchaf. Gofynwyd i'r clarc gysylltu gyda'r adran gynllunio.

**6. Datgan Diddordeb**
Nid oedd neb yn datgan diddordeb.

**7. Materion er Gwybodaeth**
Mae pob dogfen yn cael ei yrru yn electronig i'r Cynghorwyr drwy e bost.

9. **Unrhyw fater arall**

**Defibrillator**
Datganodd y Cadeirydd bod y ddau beiriant defribrillator wedi cyrraedd ac y bydd nawr angen derbyn dau bris gan drydanwyr i'w gosod yn Cwr Coed a Chapel Ceidio. Cytunodd y Cynghorydd Wyn Davies i wneud ymholiad ynglŷn â lleoliad arfaethedig y peiriant yn y Capel er mwyn trefnu i gael pris gan drydanwyr. Cawn drafod y prisiau yn y cyfarfod nesaf.

**Cyfraniad Ariannol**
Derbyniwyd dau lythyr yn holi am gyfraniad ariannol a penderfynwyd fel a ganlyn:
Tŷ Gobaith - £250
Cymorth Cancer Macmillan - £250

**Materion Ffyrdd**
Derbyniwyd cwynion Ffyrdd yn y cyfarfod fel a ganlyn:

1. Rydym wedi derbyn cwyn unwaith yn rhagor am y goryrru drwy bentref Rhydyclafdy. Mae llawer o blant o gwmpas ac mae hyn yn peryglu eu bywydau. Y tro diwethaf cafodd camera ei leoli yno, ond yn anffodus roedd i'w weld yn glir! Efallai fyddai yn bosibl cael gosod camera eto mewn man mwy cuddiedig neu gael "*speed bumps*" (ond mae llawer o bobl yn erbyn y rhain tu allan i'w tai oherwydd bod cymaint o swn moduron).
2. Mae dŵr tir yn rhedeg i lawr y lôn heibio Felin at Refail, Boduan.
3. Mae cyflwr y lôn o gwmpas Nant Gledryd wedi mynd yn ddrwg iawn gyda bylchau tyfn ger ochrau y ffordd.

Gofynwyd i'r clarc gysylltu gyda adran drafnidiaeth Cyngor Gwynedd.

Daeth y cyfarfod i ben am 08:00 y.h.
Bydd y cyfarfod nesaf yn cael ei gynnal ar 10 Mehefin 2021 drwy gyfrwng **ZOOM**.